


Y Ffordd i Heddwch

Yn 2004 cafodd Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen ei henwebu ar gyfer Gwobr Heddwch Nobel, ar awgrym Cyngor Celfyddydau Cymru.

Terry Waite oedd yn arwain y cais – mae gan Bwyllgor Nobel reolau llym ynghylch y cymwysterau sydd eu hangen i wneud enwebiadau. Mae'n debyg inni wneud yn eithaf da, gan gyrraedd rhestr fer iawn. Yr

enillydd oedd Wangari Muta Maathai, gwleidydd o Ddwyrain Affrica ac ymgyrchydd dros hawliau menywod. Roedd cyflwyniad yr Eisteddfod yn cynnwys fideo arbennig o dda, tua deg munud o hyd.



Ym mhob ffordd, mabwysiadodd yr Eisteddfod gynnar ddull ymarferol o hyrwyddo cysylltiadau da rhwng pobl gyffredin drwy feithrin rhai gwerthoedd syml.

Derbyniwyd cystadleuwyr o bob gwlad: daeth cymod â'r Eidal, Sbaen a Hwngari yn 1947, a'r Almaen yn 1949, i gystadlu ochr yn ochr â gwledydd fel Iwgoslafia, Gwlad Pwyl a Tsiecoslofacia.

Mynegodd y cystadleuwyr eu hunaniaeth eu hunain; erbyn dechrau'r 1950au roedd holl




Kelly Lee from Hawaii signing autographs for local children.

ynysoedd Môr y Canoldir wedi datgan annibyniaeth ddiwylliannol oddi wrth eu

mamwledydd cyfandirol. Cafodd y cystadleuwyr gymorth ariannol a llety gyda theuluoedd mewn pentrefi hyd at 50 milltir o Langollen, gan arwain at lawer o gyfeillgarwch parhaol ac effaith eang ar y rhanbarth.

Cadwodd yr Eisteddfod brisiau tocynnau'n fwriadol isel, fel y byddai'r digwyddiad yn fforddiadwy i gynifer â phosibl ac yn cael ei fwynhau'n eang. Yn bwysicaf oll, cynhaliodd yr Eisteddfod safonau artistig uchel iawn, ac roedd cystadleuwyr yn dychwelyd dro ar ôl tro..



A Welsh Hostess Shows a Yugoslav the Sights



Maud's husband, Maud and Selvig Norway send their best greetings.
Oslo, July 8th, 1949.
Dear friends!
Here is a little greeting to you from your Norwegian guests to whom you all were so nice and friendly. Thanks a lot for making our visit to Wales, the Eisteddfod and Eirik so the most wonderful.

Cafodd y bwriadau i hyrwyddo heddwch eu crynhoi yn y darian a'r arwyddair, a grëwyd gan gerflunydd blaenllaw a bardd heddychol Cymreig. Wedi'u cyfuno yn y prif wobrau, buont yn cario'r neges ledled y byd, gan gynnwys i lawnt y Tŷ Gwyn yn 1966 (ar y dde eithaf).

